| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Mehefin, 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Cymorth i Gwsmeriaid ac Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Cwynion Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Eich Llais – adroddiad Ch4 2013/14** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r adborth a dderbyniwyd trwy bolisi adborth cwsmeriaid Cyngor Sir Ddinbych 'Eich Llais' a thrwy'r weithdrefn gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod Chwarter 4 2013/14.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am unrhyw faterion perfformiad ac i wneud argymhellion i ymdrin â'r rhain yn unol â hynny.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn rhoi sylwadau ar berfformiad gwasanaethau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Penawdau ar gyfer Ch4 (gweler atodiadau am fanylion pellach).

- Derbyniodd y cyngor 130 o gwynion, sy'n gynnydd o 14% ar Ch3.
- Cofnodwyd cyfanswm o 510 o gwynion yn ystod 2013/14 - gostyngiad o 8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd cynnydd sylweddol (122%) yn y nifer o gwynion yn erbyn Gwasanaethau Tai; 20 yn Ch4 o'i gymharu â 9 yn Ch3. Roedd 90% (18) yn ymwneud â rheoli asedau. Gweler atodiad 4 am fanylion pellach.
- Roedd cynnydd sylweddol hefyd (122%) yn y nifer o gwynion yn erbyn Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden; 28 yn Ch4 o'i gymharu â 14 yn Ch3. Roedd 68% (18) yn ymwneud â llyfrgelloedd. Roedd y rhan fwyaf o'r adborth yn ymwneud â'r peiriant talu newydd a osodwyd yn ddiweddar yn y cyfleuster *Library Plus* newydd ym Mhrestatyn.
- Roedd Cwynion yn erbyn y Gwasanaethau Amgylcheddol wedi disgyn am y pedwerydd chwarter yn olynol; Ch1 (38), Ch2 (34), Ch3 (27) a Ch4 (22).

- Roedd gostyngiad sylweddol hefyd (62%) yn y nifer o gwynion yn erbyn Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, 9 yn Ch4 o'i gymharu â 24 yn Ch3.

- Derbyniodd y cyngor 158 o ganmoliaethau yn ystod Ch4.

- Ar gyfer y trydydd chwarter yn olynol, roedd y Gwasanaethau Oedolion a Busnes wedi derbyn y nifer fwyaf o ganmoliaethau - 51 (32%).

Perfformiad

- 93% (121/130) o'r cwynion yn cael eu hateb o fewn terfynau amser 'Eich Llais'. Mae hyn yn ostyngiad ar berfformiad Ch3 (96%), ac nid yw'n cwrdd â'r targed corfforaethol o 95%.

- Perfformiad cyffredinol y flwyddyn oedd 96% (488/510) o gwynion yn cael eu hateb o fewn terfynau amser 'Eich Llais'. Mae hyn yn rhagori ar y targed corfforaethol ac yn derbyn gradd GWYRDD.

- Wedi ymdrin â 93% (121/130) o'r cwynion yn llwyddiannus yng ngham 1, gwelliant bychan mewn perfformiad o'i gymharu â'r chwarteri blaenorol; Ch1 (86%), Ch2 (87%) a Ch3 (87%).

- Dim ond 56% (5/9) o gwynion cam 2 a gafodd eu hateb o fewn terfynau amser 'Eich Llais'. Dyma ostyngiad mewn perfformiad o'i gymharu â'r chwarteri blaenorol; Ch1 (83%), Ch2 (100%) a Ch3 (75%).

- 2 maes gwasanaeth wedi eu hamlygu fel rhai statws COCH; Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ac 'Arall'. Y gŵyn a gofnodwyd yn erbyn 'arall' oedd traws-wasanaeth a oedd yn cynnwys Treth y Cyngor a Gwasanaethau Tai.

- Priffyrdd mewn Isadeiledd wedi'i amlygu fel statws OREN.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r cynllun Eich Llais yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nod corfforaethol o gael: *Cyngor ardderchog, sy'n agos at y gymuned.*

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig i adborth cwsmeriaid yn cael eu hamsugno i gyllidebau presennol.

## 7. Beth yw'r prif gasgliadau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Ddim yn berthnasol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Adroddiadau misol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan adrodd yn ôl bob chwarter i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, ac adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ddim yn berthnasol.

**10. Pa risgiau sydd, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Drwy beidio â delio â chwynion yn effeithiol, efallai y bydd enw da y cyngor yn dioddef.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae hwn yn bapur ar gyfer gwybodaeth yn hytrach nag ar gyfer penderfyniad.